Carem groesawu pawb yn ôl ar ddechrau blwyddyn addysgol newydd. Hyderwn y cafwyd gwyliau ymlaciol dros yr Haf. Diolch i bawb am eu cymorth yn ystod y flwyddyn.

Croeso

Croeso arbennig i ddisgyblion newydd sef - Rhiannon Evans, Hannah Morgan, Mari Rowlands, Ryan Evans, Teleri Donnelly, Rhian Donnelly, Shaun Holmes, Lisa Holmes a Kimberley Holmes.

Croeso cynnes hefyd i ddwy athrawes newydd i'r ysgol. Mae Mrs Bethan Davies a Mrs Louisa Phillips yn wynebau cyfarwydd i ni ac wedi ymgartrefu'n hapus yn ein plith.

Croesawyd Mrs Catherine Griffiths atom am bythefnos o arsylwi dechrau'r tymor. Anfonwn ein dymuniadau gorau iddi ar y cwrs TAR Cynradd.

Mae Miss Sara Jones gyda ni bob prynhawn dydd Llun am weddill y tymor yn cael profiad gwaith yn Adran y Babanod. Croeso cynnes iddi hithau hefyd.

Llongyfarchion

Anfonwn ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i Mrs Jennifer Oliver a Mrs Julie Williams yn eu swyddi newydd. Diolchwn iddynt am eu holl waith gyda ni yn yr ysgol.

Ein dymuniadau gorau at ein cyn-ddisgyblion sydd newydd gychwyn yn eu hysgolion newydd.